Llyfrgell Caerdydd.

odiwrth yr Awdwr

4.166

# "YMWELIAD Y TADAU."

Gwyl Dewi 1908

## DIWEDD-GAN.

MAE to ar ol to o ddisgyblion
  O'r Coleg yn myned i maes,
Efengyl yw amcan eu bywyd,
  A'u pwnc prynedigaeth a gras :
Myfyriant ar feddwl Ysgrythyr,
  A hanes y ffydd ym mhob oes ;
Pob doniau a nerthoedd ddeisyfant,
  Er traethu gwirionedd y Groes.

Cyfnodau a dynion ddarfyddant,
  Ond crefydd gynydda trwy'r byd,
A'r un yn ei ysbryd a erys
  Y Corff Methodistaidd o hyd.
Yn Harris fu'r angerdd cenhadol,
  Yn Rowlands uniondeb y ffydd,
A Charles yn cyfranu'r ordeiniad,
  A'n cynllun rheolaidd a rydd.

A byth na foed bwlch yn olyniaeth
  Y Tadau rhagorol eu dawn ;
Ond yma dylifed yn gyson
  Ieuenctyd o'r Ysbryd yn llawn,
I gludo goleuni'r efengyl
  I'r Dwyrain, Gorllewin a De,
Nes delo preswylwyr y ddaear
  Yn ddeiliaid Etifedd y Ne'.

John Young Evans
Y Coleg Duwinyddol
Aberystwyth

X205 221474 573 W